



## Digwyddiadau Cynghorau Tref a Chymuned Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf

### Argoed

**11 Tachwedd:** Bydd Cyngor Cymuned Argoed yn nodi'r canmlwyddiant trwy godi ei Gofeb cyntaf i'r rhai a fu farw yn yr ardd goffa yn Chambers Lane, Mynydd Isa. Cynhelir gwasanaeth a Chymun am 10.45am ac i ddilyn fe ddadorchuddir y gofeb.

### Cei Connah a Shotton

**11 Tachwedd:** yn dilyn y Gwasanaeth Coffa blynyddol sy'n dechrau am 10am yn Swyddfeydd Dinesig, Cei Connah, bydd gwasanaeth byr i gofio Henry Weale C.F a dadorchuddio'r cerrig coffa ar ei gyfer. Bydd y gwasanaeth hwn yn cychwyn am 11.30am ar y bont ar gornel Brook Road, Shotton. Bydd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig hefyd yn arddangos medal Henry Weale.

**12 Tachwedd:** Gŵyl Fywyd a Diolch i'w chynnal ger Cofeb Ryfel Cei Connah. Bydd pabïau yn cael eu gosod ar y gofeb, gydag enwau'r 22 unigolyn nad ydynt wedi'u cynnwys ar y gofeb.

### Gwernaffield a Phantymwyn

**9 Tachwedd Bydd** Cyngor Cymuned Gwernaffield a Phantymwyn yn cynnal digwyddiad i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, nos Wener 9 Tachwedd 2018 yn Neuadd Bentref Gwernaffield am 6pm. Ar y noson bydd lluniau a ffotograffau yn cael eu taflunio, darlleniadau, y caniad olaf, cerddoriaeth gan Fand Arian Gwernaffield a lluniaeth i'r gymuned.

## Yr Hôb

**11 Tachwedd:** Mae Cyngor Cymuned yr Hôb yn rhoi cyfraniad ariannol at ddigwyddiad a gydlynir gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint. Bydd Alistair Hemphill yn cydlynu digwyddiad i nodi 100 mlynedd ers y Cadoediad. Mae'n trefnu digwyddiad ar Waun y Llyn ar 11 Tachwedd 2018 (yn dechrau am oddeutu 6.30pm). Y bwriad yw goleuo fflag arbennig (tua 1.5m x 1m) a bydd band, corau ysgol, côr meibion, siaradwyr ac, o bosibl, pabell luniaeth gyda'r cymunedau lleol o amgylch Mynydd yr Hôb. Bydd nifer o fflaglau o amgylch Sir y Fflint a fydd i gyd yn cael eu goleuo ar yr un pryd.

COFIO

## Penarlâg / Brychdyn a Bretton

**11 Tachwedd:** Mae'r Cynghorau Cymuned yn paratoi ar gyfer yr orymdaith gofio flynyddol ar y cyd â'r Lleng Prydeinig Brenhinol, eglwysi lleol, sefydliadau'r cadetiaid, y sgowtiaid a'r brownis ynghyd ag ysgolion a chlybiau lleol ac ati.

Ategir at y gwasanaeth eleni gan system ficroffon arbenigol er mwyn cydnabod nifer y mynychwyr sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Rydym yn falch o gyhoeddi hefyd bod Tîm Digwyddiadau Cymunedol Penarlâg yn ariannu'r ddarpariaeth hon ar ran y Cyngor.

Fel rhan o brosiect Adfer Cofeb Ryfel Penarlâg bydd 9 o enwau eraill yn cael eu hychwanegu at y gofeb i gydnabod y rheiny a fu farw yn y Rhyfel Mawr. Bydd teyrngedau'n cael eu darllen gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Penarlâg.

Yn ystod y flwyddyn prynodd y Cynghorau Cymuned dri o Filwyr Mud fel rhan o ymgyrch Y Lleng Prydeinig Brenhinol i nodi blwyddyn olaf canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r milwyr hyn wedi cael eu gosod ar y Gofeb Ryfel ym Mhenarlâg, Eglwys y Santes Fair ym Mrychdyn ac wrth y fynedfa i Bretton ger y Pwmp Dŵr.

Fel y llynedd, bydd llwybr yr orymdaith yn cael ei nodi gan babiau ar hyd colofnau'r stryd.

### Adfer a Goleuo Cofeb Ryfel Penarlâg

Yn ddiweddar derbyniodd Cyngor Cymuned Penarlâg ganiatâd Adeilad Rhestredig am waith adfer a gwella ar gofeb ryfel Penarlâg. Bydd hyn yn cynnwys glanhau'r gofeb er mwyn gwella ei helfennau naturiol a sicrhau bod enwau'n fwy darllenadwy. Bydd 9 o enwau yn cael eu hychwanegu at y gofeb ynghyd â golau cynnil i wella'r adeilad rhestredig hwn. Fel rhan o'r prosiect, bydd enwau'r milwyr a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd hefyd yn dychwelyd i'r meini Efrog presennol sy'n fwy cydnaws ag ymddangosiad cyffredinol y gofeb. Mae cais wedi'i anfon at CADW am gyllid tuag at y prosiect hwn.

## Seremoni Goleuo Ffagl

**11 Tachwedd:** Bydd Cyngor Cymuned Penarlâg a Chyngor Cymuned Brychdyn a Bretton hefyd yn cymryd rhan yn "Battle's Over – A Nation's Tribute" ar 11 Tachwedd 2018 sy'n nodi 100 mlynedd o gofio. Mae hon yn deyrnged genedlaethol ac am 6.55pm bydd y Caniad Olaf yn cael ei chwarae'n lleol a ledled y wlad. Am 7.00 p.m. bydd Ffaglau'r Ail Ryfel Byd yn cael eu goleuo ledled y wlad ac am 7.05pm bydd Clychau Eglwys St. Deiniol ac Eglwys y Santes Fair yn canu ar yr un pryd â chlychau eglwysi eraill ledled y wlad.

Yn dilyn y seremoni ffurfiol lle bydd Arglwydd Raglaw Clwyd, Mr Harry Fetherstonhaugh yn bresennol ynghyd â'r Arglwydd a'r Arglwyddes Barry Jones, Cadeiryddion y cynghorau cymuned perthnasol ac urddasolion lleol a chynrychiolwyr o'r Llang Prydeinig Brenhinol, y Cadetiaid ac ysgolion ac ati, bydd y sgowtiaid lleol yn darparu lluniaeth ym mhencadlys y sgowtiaid sydd bellach hefyd yn cael ei ddefnyddio fel Siambr y Cyngor.

## Treffynnon

**11 Tachwedd:** Cynhelir digwyddiad i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngerddi'r Tŵr, y Stryd Fawr a Threffynnon ar brynhawn Sul 11 Tachwedd ar ôl y gwasanaethau traddodiadol a'r orymdaith. Sefydlir gwefan hefyd fel rhan o'r prosiect hwn. (atodir erthygl cylchgrawn)

## Yr Hôb

**11 Tachwedd:** Mae Cyngor Cymuned yr Hôb yn rhoi cyfraniad ariannol at ddigwyddiad a gydlynir gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint. Bydd Alistair Hemphill yn cydlynu digwyddiad i nodi 100 mlynedd ers y Cadoediad. Mae'n trefnu digwyddiad ar Waun y Llyn ar 11 Tachwedd 2018 (yn dechrau am oddeutu 6.30pm). Y bwriad yw goleuo ffagl arbennig (tua 1.5m x 1m) a bydd band, corau ysgol, côr meibion, siaradwyr ac, o bosibl, pabell luniaeth gyda'r cymunedau lleol o amgylch Mynydd yr Hôb. Bydd nifer o ffaglau o amgylch Sir y Fflint a fydd i gyd yn cael eu goleuo ar yr un pryd.

## Penyffordd

### Mur Pabïau Coch

Bydd mur pabïau coch tua 20 troedfedd o hyd yn ymlusgo o Gloc y Mileniwm, Penyffordd. Mae trigolion y pentref cyfan wedi cael eu gwahodd i gynhyrchu pabïau coch ac mae amryw o grwpiau, o bobl sy'n gwau pabïau, Clwb Ieuenctid, Brownis, Meithrinfa Stepping Stone, cylchoedd chwarae plant bach ac ysgolion, wedi bod yn

gwneud mathau amrywiol o babïau. Mae wedi dod â phobl y pentref, yn hen ac ifanc, at ei gilydd.

Ar ôl i'r rhwyd gael ei gosod ar Gloc y Mileniwm, gwahoddir y preswylwyr i ychwanegu eu pabi eu hunain at y wal.

Ymddengys bod pawb yn y gymuned yn siarad am babïau. Pwy fyddai'n meddwl y byddai un syniad bach fel hyn yn dod â'r gymuned gyfan at ei gilydd.

## Gorymdaith

**11 Tachwedd:** Cynhelir gorymdaith Sul y Cofio o amgylch y pentref a bydd gwasanaeth i ddilyn yn y Sefydliad ddydd Sul 11 Tachwedd sy'n dechrau am 2.00 (amser i'w gadarnhau).

## Sefydliad Cofeb Ryfel Penyffordd

**9 Tachwedd:** Cynhelir cyngerdd canmlwyddiant yn y Sefydliad, nos Wener 9 Tachwedd am 7.00. Bydd Band Bradle a chôr Sant Ioan yn cymryd rhan yno yn ogystal ag adloniant arall. Bydd mynediad i'r digwyddiad am ddim ond derbynnir rhoddion ar y noson.

## Sealand

**Eglwys St Bartholomew,**  
Ffordd Sealand, Sealand CH5 2LQ

**10 – 11 Tachwedd: Arddangosfa Penwythnos y Cofio a Dadorchuddio Rhaeadr Pabiau Sealand** – arddangosfa ddeuddydd ddarluniadol o wybodaeth ac arteffactau sy'n dangos y rôl a chwaraeodd Sealand yn y Rhyfel Mawr ac yn cofio'r rhai o'r Gymuned hon a gollodd eu bywydau er mwyn ein dyfodol ni. **Ar agor 10am - 4pm bob dydd.**

**10 Tachwedd: Gwynos yng Ngolau Cannwyll: 6pm** – gwasanaeth yng ngolau cannwyll i gofio'r rhai o'r Gymuned hon a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.

**11 Tachwedd: 10.30am: Gwasanaeth Dinesig Sul y Cofio** - Gwasanaeth i gofio'r milwyr o Sealand a Queensferry a fu farw, gyda derbyniad dinesig i ddilyn.

**11 Tachwedd: 2pm: Gwasanaeth Cymunedol Sul y Cofio** – gwasanaeth hanner awr yn y V.I. yn Saughall i gofio aelodau'r Plwyf hwnnw a fu farw, gyda lluniaeth i ddilyn yn y V.I..

**11 Tachwedd: 3pm: Cyngerdd – 'The Armed Man' gan Karl Jenkins** a berfformir gan Gantorion Bwcle

COFIO



REMEMBER